

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	25 Mai 2021
Aelod / Swyddog Arweiniol	Julian Thompson-Hill / David Lorey
Awdur yr adroddiad	Mark Cassidy
Teitl	Fframwaith Cynnal a Chadw Ymatebol i Ysgolion ac Adeiladau Heb Fod yn Ysgolion.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Aildendro'r fframwaith cynnal a chadw ymatebol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad ar aildendro Fframwaith cynnal a chadw ymatebol y Cyngor. Roedd y Fframwaith blaenorol wedi'i dendro am gyfnod o bedair blynedd ac mae bellach wedi dod i ben y cyfnod ac angen ei dendro eto.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Yr argymhelliad yw cymeradwyo'r penderfyniad i aildendro i sicrhau bod y Cyngor yn cael y gwerth gorau gan ei gontractwyr cynnal a chadw.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Un o brif swyddogaethau tîm cynnal a chadw eiddo Cyngor Sir Ddinbych yw darparu gwasanaeth atgyweirio eiddo ymatebol o ddydd i ddydd i ysgolion ac adeiladau eraill. Mae contractwyr yn cael eu dewis ar ôl tendro yn seiliedig ar gost ac ansawdd, a'u maes arbenigedd e.e. mecanyddol neu drydanol. Mae gwaith yn cael ei ddyrannu i gontractwyr gan y ddesg gymorth cynnal a chadw eiddo, sy'n bwynt cyswllt cyntaf rhwng defnyddwyr adeiladau a chontractwyr.

4.2. Mae'r Fframwaith cyfredol bellach angen ei roi ar dendr eto ac mae disgwyl iddo gael ei ddyfarnu ar gontract dwy flynedd gyda dewis i'w ymestyn am flwyddyn a blwyddyn arall , sy'n golygu contract posib' am bedair blynedd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y Fframwaith yn effeithio ar y blaenoriaethau Cymunedau Cadarn a'r Amgylchedd. Bydd yn cefnogi'r tîm cynnal a chadw eiddo i gynnal adeiladau cyhoeddus a chyfleusterau addysg ar gyfer ein pobl ifanc sy'n saff a diogel, gan ddefnyddio contractwyr lleol lle bo modd, a darparu cyfleoedd am brofiad gwaith i bobl sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i leoliadau gwaith trwy'r elfennau buddion cymunedol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r gwariant blynyddol ar waith atgyweirio a chynnal a chadw ar hyn o bryd tua £2 filiwn, felly £8 miliwn dros oes y Fframwaith.

6.2. Bydd y Fframwaith yn caniatáu i ni fod â chontractwyr cymwys ac addas ar gael i ymateb i broblemau cynnal a chadw yn ôl yr angen, i sicrhau bod ein hadeiladau mewn cyflwr da ac atal unrhyw adeiladau rhag gorfod cau o fod yn anniogel.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r asesiad llawn wedi'i atodi i'r cyflwyniad hwn. Mae'r prif bwyntiau i'w gweld isod:

Y sgôr ar gyfer cynnaladwyedd y dull o weithio

(3 allan o 4 seren) Gwir sgôr: 22 / 30.

Goblygiadau'r sgôr

Hirdymor – Bydd y Fframwaith yn golygu y bydd gwasanaethau cynnal a chadw adeiladau CSDd yn gallu bodloni ei anghenion byrdymor a hefyd diogelu gallu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion hirdymor i wella ac adnewyddu ei stoc o adeiladau ysgolion ac adeiladau cyhoeddus i ddiwallu anghenion ein tenantiaid.

Atal – Dylai gweithio gyda grŵp o gontractwyr cymwys ac addas ein helpu i leihau ein galwadau cynnal a chadw ymatebol.

Integreiddio –

Cydweithio – Bydd gweithio'n agos gyda rheolwyr Busnes a Chyllid ysgolion a Rheolwyr Adeilad adeiladau eraill yn caniatáu i ni ddeall anghenion ein tenantiaid. Wedyn, gallwn weithio gyda chontractwyr i addasu'r adeilad ar gyfer yr angen hwnnw.

Cyfranogi – Mae Contractwyr, Syrfewyr CSDd, Rheolwyr Busnes a Chyllid a chwsmeriaid eraill i gyd yn rhan o'r broses.

Crynodeb o'r effaith

Nodau Lles

Sir Ddinbych ffyniannus – **Cadarnhaol**

Sir Ddinbych wydn – **Cadarnhaol**

Sir Ddinbych iachach – **Cadarnhaol**

Sir Ddinbych fwy cyfartal – **Niwtral**

Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol – **Cadarnhaol**

Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – **Niwtral**

Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang – **Cadarnhaol**

Prif gasgliadau

Nid oes angen unrhyw asesiad o effaith arall. Y prif gasgliad yw y bydd y Fframwaith yn darparu contractwyr a fydd yn atgyweirio ac yn cynnal a chadw asedau'r Cyngor er budd ein tenantiaid a'n cwsmeriaid.

Tystiolaeth i gefnogi'r Asesiad o'r Effaith ar Les

Rydym wedi ymgysylltu gyda phobl a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr adeiladau sydd wedi nodi ei bod yn well ganddynt ddefnyddio contractwyr lleol cyfarwydd gan ei bod yn hawdd meithrin perthynas a bod contractwyr lleol yn adnabod yr ardal a hanes cynnal a chadw adeiladau.
- 8.2. Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda'n contractwyr presennol, sy'n awyddus i ailgyflwyno tendrau am waith yn y dyfodol a byddwn hefyd yn cynnig lle i drafod gyda chontractwyr newydd posib' ar ôl yr hysbysiad ffurfiol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Bydd yr argymhelliad i gymeradwyo aildendro Fframwaith cynnal a chadw ymatebol y Cyngor yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i gael y gwerth gorau ac yn cydymffurfio â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau. Mae'r gwariant sydd wedi'i gynllunio yn rhan o gynlluniau'r gyllideb gyfredol ac nid yw'r adroddiad yn ymrwymo i unrhyw gynnydd mewn gwariant.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Nad yw contractwyr lleol yn tendro gan nad ydynt yn ymwybodol o'r broses. Byddwn yn rhoi gwybod i gontractwyr Sir Ddinbych am y tendr. Bydd cymorth yn cael ei gynnig gan Fusnes Cymru i'w helpu gyda'u cynigion.
- 10.2. Cyfraddau fesul awr yn cynyddu. Mae hyn yn bosib', ond bydd defnyddio'r broses dendro fwy na thebyg yn eu cadw'n gystadleuol.
- 10.3. Contractwyr ddim yn perfformio'n ôl y disgwyl. Byddwn yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y tendr a bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r contractwyr yn rheolaidd.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r pŵer i wneud penderfyniad wedi'i gynnwys yn Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rheoliad 33 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.